# Canllaw i Fyfyrwyr ar Ddefnyddio DA Cynhyrchiol

Y rheolau hanfodol:

**Dilynwch y canllawiau ar gyfer defnyddio DA a nodir gan y brifysgol a'ch adran bob amser. Os oes gennych unrhyw amheuon ynglŷn â defnyddio DA ar gyfer eich gwaith a asesir, gofynnwch am eglurhad gan gydlynydd eich modiwl.**

Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â disgwyliadau trwyddedu a diogelwch data, yr adnodd DA a argymhellir gan Brifysgol Aberystwyth yw Microsoft CoPilot, sydd wedi'i gynnwys yn y pecyn Microsoft 365 a ddarperir yn rhad ac am ddim gan y Brifysgol

Cofiwch: Gall adnodd DA cynhyrchiol fod yn gydweithiwr defnyddiol ac yn gymorth mawr ar gyfer casglu a mireinio syniadau. Fodd bynnag, rhaid i chi beidio â defnyddio DA i ateb cwestiwn traethawd yn uniongyrchol gan y dylai eich gwaith a asesir adlewyrchu eich dealltwriaeth eich hun a'ch meddyliau gwreiddiol ar bwnc.

Dylech bob amser gydnabod yn eich gwaith os ydych chi wedi defnyddio DA Cynhyrchiol.

Mae adnoddau DA yn ddefnyddiol ond nid bob amser yn berffaith, gallant wneud camgymeriadau neu roi gwybodaeth anghywir. Mae'n bwysig gwirio eu hallbynnau i osgoi gwallau neu ddryswch. Ystyriwch gynnwys a gynhyrchir gan DA â gofal bob amser a'i gymharu â ffynonellau dibynadwy.

Os yw eich disgyblaeth academaidd yn cynnwys cyfieithu mewn unrhyw waith a asesir, cyfeiriwch at ganllawiau penodol eich adran ynghylch defnyddio adnoddau DA ar gyfer cyfieithu. (Am gyngor mwy cyffredinol ar ddefnyddio DA i gyfieithu gweler y canllawiau isod).

Rydym yn argymell eich bod chi'n lawrlwytho a chadw unrhyw allbynnau DA Cynhyrchiol (gan gynnwys yr awgrymiadau) fel y gallwch ddangos sut y gwnaethoch eu hymgorffori yn eich gwaith.

Dylid darllen y canllaw hwn ochr yn ochr â Pholisi DA Cynhyrchiol y Brifysgol.

**Rhai pethau i'w hystyried os ydych chi'n defnyddio DA drwy gyfrwng y Gymraeg:**

**Mae'r data hyfforddi yn gyfyngedig**: Mae angen setiau data mawr ar fodelau DA i ddysgu iaith yn dda. Ar gyfer y Gymraeg, nid oes cymaint o ddata ar gael o'i gymharu â phrif ieithoedd fel Saesneg, sy'n effeithio ar ansawdd a chywirdeb adnoddau DA.

**Beth mae hyn yn ei olygu'n ymarferol?** Gall hyn arwain at gamgymeriadau wrth gyfieithu, llenwi testun yn awtomatig, adnabod llais, a chymwysiadau DA eraill. Er enghraifft, gallai DA gael trafferth cyfieithu ymadroddion Cymraeg yn gywir neu adnabod lleferydd Cymraeg, gan arwain at wallau a chamddealltwriaeth.

Cofiwch y rheol hanfodol bob amser: Mae'n bwysig gwirio allbynnau er mwyn osgoi gwallau neu ddryswch. Ystyriwch gynnwys a gynhyrchir gan DA â gofal bob amser a'i gymharu â ffynonellau dibynadwy.

**A yw'r sefyllfa'n debygol o newid?** Gall y newid fod yn araf oherwydd bod llai o gymhelliant ariannol i gwmnïau DA fuddsoddi yn yr iaith Gymraeg. Mae'r sylfaen lai o ddefnyddwyr yn golygu y gall cwmnïau flaenoriaethu ieithoedd a siaredir yn fwy eang, gan arwain at ddatblygiadau arafach ar gyfer cymwysiadau DA yn y Gymraeg.

Mae yna newyddion calonogol fodd bynnag: mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio â OpenAI i wella sut mae technolegau'n gweithio gyda'r Gymraeg. Cadwch lygad allan!

## Y Parth Coch (DA cynhyrchiol: beth na ddylech chi ei wneud).

Ni ddylech gyflwyno cynnwys neu syniadau a gynhyrchir gan DA fel eich rhai chi.

Ni ddylech ddefnyddio DA Cynhyrchiol i greu llyfryddiaeth ar gyfer eich aseiniad oni bai eich bod wedi darllen a deall y ffynonellau eich hun yn llawn.

Ni ddylech ddefnyddio DA i greu data ffug neu newid data presennol mewn ffordd sy'n gwyro'ch canfyddiadau.

Ni ddylech ddefnyddio DA yn ystod profion neu arholiadau wyneb yn wyneb neu ar-lein.

Ni ddylech uwchlwytho data neu wybodaeth bersonol neu sensitif i adnodd DA Cynhyrchiol oherwydd gall systemau o'r fath brosesu a storio'r data mewn ffyrdd a allai beryglu preifatrwydd a diogelwch. Gallai hyn arwain at amlygiad anfwriadol neu gamddefnyddio gwybodaeth gyfrinachol

## Ambr: Defnyddiwch yn ofalus, a dim ond gyda chymeradwyaeth benodol eich cydlynydd modiwl.

### Defnydd: Crynhoi.

**Enghreifftiau:**

- Gallwch ofyn i DA greu crynodebau o ddarlleniadau i'ch helpu i benderfynu a ydyn nhw'n berthnasol.
- Gallwch ofyn i DA dynnu sylw at y pwyntiau allweddol neu'r dadleuon mewn erthygl neu bapur ymchwil.

Rhybudd Ambr: Mae'n bwysig adolygu'r ffynonellau gwreiddiol yn uniongyrchol, gan y gall crynodebau a gynhyrchir gan DA gynnwys gwybodaeth anghywir neu hepgor manylion pwysig. Gwiriwch grynodebau DA gyda'r testunau gwreiddiol i sicrhau bod gennych ddealltwriaeth gyflawn a chywir o'r deunydd.

### Defnydd: Golygu a Phrawfddarllen.

**Enghreifftiau:**

- Gallwch ofyn i DA wirio sillafu, gramadeg a pha mor ddarllenadwy yw eich gwaith.

- Gallwch ofyn i DA wirio am gysondeb mewn fformatio, megis penawdau, pwyntiau bwled, arddulliau ffont, bylchau ac aliniad.
- Gallwch ofyn i DA awgrymu ffyrdd o wneud i'ch ysgrifennu lifo'n well a swnio'n fwy naturiol.

Rhybudd Ambr: Ni ddylech ddibynnu ar yr adnoddau hyn i ailysgrifennu'ch cynnwys neu newid ei ystyr. Dylai eich gwaith adlewyrchu eich llais eich hun a'ch syniadau eich hun, nid y rhai a grëwyd gan DA Cynhyrchiol.

## Defnydd: Cyfieithu.

**Enghreifftiau:**

- Gallwch ofyn i DA gyfieithu testun o un iaith i'r llall i helpu i ddeall ei ystyr.
- Gallwch ofyn i DA helpu i gyfieithu jargon neu dermau technegol i iaith symlach.
- Gallwch ofyn i DA helpu i gyfieithu ymadroddion cyffredin nad oes ganddynt gyfieithiad uniongyrchol yn eich iaith.

Rhybudd Ambr: Efallai na fydd cyfieithiadau DA yn cyfleu ystyr, cyd-destun neu fanylion cynnil y testun gwreiddiol yn llawn, yn enwedig gydag ymadroddion cymhleth neu ddiwylliant-benodol. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio cyfieithiadau ddwywaith, yn enwedig ar gyfer aseiniadau academaidd. Wrth ymgorffori dyfyniad wedi'i gyfieithu yn eich gwaith, gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys yr awgrymiadau a'r allbynnau o'r adnodd DA a ddefnyddiwyd gennych.

Rhybudd Ambr/Coch: Efallai fod gan rai adrannau, (er enghraifft, Ieithoedd Modern; Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd) reolau llym ynglŷn â defnyddio DA ar gyfer cyfieithu. Gwiriwch ganllawiau eich adran bob amser i wneud yn siŵr nad ydych chi'n torri unrhyw reolau academaidd.

## Defnydd: Codio Cyfrifiadurol

**Enghreifftiau:**

- Gallwch ofyn i DA egluro cysyniadau ac arferion codio yn fwy eglur, gan eu gwneud yn haws i'w deall.
- Gall DA helpu i nodi gwallau neu namau yn eich cod a gall awgrymu datrysiadau neu dynnu sylw at ble mae'r broblem.
- Gall DA helpu i greu profion i sicrhau bod eich cod yn gweithio'n iawn.

Rhybudd Ambr: Gall cod a gynhyrchir gan DA weithiau gyflwyno gwallau annisgwyl felly mae'n hanfodol datrys y broblem â'r cod a phrofi'n drylwyr

Rhybudd Ambr/Coch. Efallai fod gan rai adrannau, (er enghraifft, Cyfrifiadureg) reolau llym ynglŷn â defnyddio DA ar gyfer tasgau codio. Gwiriwch ganllawiau eich adran bob amser i wneud yn siŵr nad ydych chi'n torri unrhyw reolau academaidd.

## Defnydd:   Cynhyrchu Adborth ar Aseiniad

**Enghreifftiau:**

- Gall DA adolygu eich gwaith ac awgrymu ffyrdd o wneud eich syniadau'n fwy eglur. Er enghraifft, gallai awgrymu ailysgrifennu brawddegau hir neu wella sut mae eich paragraffau yn cysylltu i wneud eich dadl yn haws i'w dilyn.
- Gall DA wirio a yw eich aseiniad wedi'i drefnu'n rhesymegol. Gallai awgrymu aildrefnu adrannau ar gyfer strwythur mwy eglur neu gynnig ffyrdd o wella'r llif cyffredinol, gan wneud eich gwaith yn haws i'w ddilyn a'i ddeall.

Rhybudd Ambr: Gall dibynnu gormod ar DA am adborth eich atal rhag datblygu eich sgiliau meddwl beirniadol eich hun. Defnyddiwch DA fel adnodd ategol, nid yn lle eich adolygiad a'ch myfyrdod eich hun o'ch gwaith.

## Gwyrdd: Yn cynnwys defnydd lle mae DA yn adnodd defnyddiol a chynhyrchiol a all gefnogi eich gwaith academaidd heb ddisodli neu gyfyngu ar eich dysgu eich hun.

## Defnydd:   Mynd i'r afael â hanfodion ysgrifennu academaidd.

**Enghreifftiau:**

- Gallwch ofyn i DA eich helpu i ddysgu'r gwahaniaethau rhwng gwahanol fathau o aseiniadau ysgrifennu, fel traethodau, adroddiadau, a negeseuon blog.
- Gallwch ofyn i DA am gyngor ar sut i strwythuro'ch aseiniad gyda llif clir, rhesymegol (e.e. cyflwyniad, corff, casgliad ar gyfer traethawd).
- Gallwch ofyn i DA eich helpu i ddeall confensiynau ysgrifennu academaidd yn well, megis sut i drefnu eich pwyntiau'n glir, datblygu dadl gref, a chefnogi eich honiadau gyda thystiolaeth.

## Defnydd:   Cynhyrchu syniadau neu ysbrydoliaeth i'ch helpu i dorri trwy rwystrau creadigol.

**Enghreifftiau:**

- Gallwch ofyn i DA feddwl am bynciau posibl ar gyfer cyflwyniad seminar.
- Gallwch ofyn i DA am awgrymiadau ar wahanol onglau i ymdrin â phwnc os nad ydych chi'n siŵr ble i ddechrau.
- Gallwch ofyn i DA am restr o gwestiynau am eich pwnc i helpu i ysbrydoli syniadau newydd.

## Defnydd:   Cynllunio eich gwaith.

**Enghreifftiau:**

- Gallwch ofyn i DA greu amlinelliad ar gyfer eich aseiniad, gan ei rannu'n adrannau megis cyflwyniad, corff a chasgliad.
- Gallwch ofyn i DA awgrymu amserlen ar gyfer cwblhau gwahanol rannau o'ch aseiniad, gan eich helpu i gadw ar y trywydd iawn a chwrdd â'ch dyddiad cyflwyno.

## Defnydd: Dod o hyd i adnoddau llyfrgell.

**Enghreifftiau:**

- Gallwch ofyn i DA gynhyrchu syniadau allweddair a all eich helpu i chwilio catalog y llyfrgell yn fwy effeithiol.
- Gallwch ofyn i DA am awgrymiadau ar sut i fireinio'ch chwiliad i ddod o hyd i'r erthyglau, llyfrau neu gyfnodolion mwyaf perthnasol.
- Gallwch ofyn i DA awgrymu cronfeydd data penodol ac adnoddau academaidd eraill sy'n gysylltiedig â'ch pwnc.

Oes gennych chi gwestiynau am DA o hyd? Ewch i'n tudalen we i gael rhagor o wybodaeth.